***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 973

# Gorchymyn Gweinyddu Gwasanaeth y Swyddogion Rhenti (Cymru) 2003

**Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau**

**5.**—(1) Trosglwyddir yr holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau yr oedd y cyrff perthnasol â hawl iddynt neu yn ddarostyngedig iddynt yn union cyn y dyddiad trosglwyddo mewn cysylltiad â gwasanaeth y swyddogion rhenti i'r Cynulliad Cenedlaethol o'r dyddiad trosglwyddo.

(2) At ddibenion erthygl 5(1), nid yw'r term eiddo yn cynnwys tir neu adeiladau neu unrhyw fuddiant mewn tir neu adeiladau.